

Y BRODYR FRANCIS

Dewi B. Francis

O droad y ganrif hyd at 1936, pan nad oedd teledu yn bodoli, a radio ddim ond megis cychwyn, yr unig gyfrwng ar gael i artistiaid gyrraedd y cyhoedd oedd y llwyfan. Dyna fu hanes Y Brodyr Francis, a thrwy hynny daethant yn enwau cyfarwydd trwy Gymru benbaladr. Hwy, yn ddiamau, oedd 'pop stars' y cyfnod, ac fel y mae pobl heddiw yn dilyn rhyw grŵp ar deledu neu radio, felly yn union yn y cyfnod cynnar yma y byddai gwerin Cymru o bob oed, yn troedio milltiroedd i glywed a gweld y ddau frawd.

Daethant yn enwog trwy Gymru gyfan ar sail eu lleisiau gwych a'u llwyfannu. Prin bod pentref yng Nghymru na fuont ynddo yn diddori, bob amser wedi eu gwisgo mewn 'tei bo' a 'tails'. Daeth hefyd wahoddiadau yn gyson o'r tu allan, gan Gymry Lerpwl, Llundain, Manceinion a'r Canolbarth.

Er i ddarlledu cyhoeddus gychwyn yn Lloegr yn 1922, fe anwybyddwyd Cymru am rai blynyddoedd wedi hynny. Mae papurau newydd y cyfnod yn frith o adroddiadau am bwyllgorau, colegau ac unigolion yn erbyn am orsaf Gymraeg i'r Gogledd. Un gŵr a wnaeth fwy na neb i symud pethau ymlaen oedd W. S. Gwynn-Williams, Llangollen, pryd hynny ef oedd golygydd *Y Cerddor*. Yn ddiweddarach daeth yn enwog fel cyfansoddwr, cyhoeddwr, a



Griffith (ar y chwith) ac Owen Francis

sefydlydd yr Eisteddfod Gydwladol. Bu iddo gysylltu â Seamus Clandillon, rheolwr gorsaf radio 2RN yn Nulyn, a chael cytundeb i ddarlledu rhaglen Gymraeg am awr a hanner ar y nos Wener cyntaf o bob mis. A hynny yn ddi-dâl. Cyhoeddwyd yr wybodaeth yma yn y *Daily Post* Chwefror, 11eg 1927. Yr un diwrnod anfonodd W. S. Gwynn-Williams wahoddiad i'r Brodyr Francis i gymryd rhan, yn y cyngerdd Cymraeg cyntaf o Ddulyn am 8 o'r gloch, Nos Wener y 4ydd o Fawrth, 1927.

Ar y pryd nid oedd ond rhyw hanner dwsin o setiau radio yn Nantlle ond roedd pawb yn y pentref wedi'u gwasgu o amgylch y rhain i wrando ar 'yr

hogia'. Mae rhai sy'n fyw heddiw yn cofio'r noson ac yn sôn am y wefr a gawsant wrth wrando ar y canu, a bod sawl deigrin wedi syrthio wrth glywed y ddau yn ffarwelio trwy ddweud 'Nos da Gymry, ac yn arbennig, bobl Nantlle'. Roedd un gŵr yn y pentref yn methu codi 2RN ar ei 'Crystal', dim ond chwibanu, a rhai yn rhedeg i dŷ arall i wrando. Clywais am ŵr o ben Llŷn yn rhoi 'earphones' mewn buddai i chwyddo'r sŵn.

Beth am eu cefndir? Fe'u ganwyd yn 'Bryn y Wern', Cwm Pennant, i William a Mary Francis, eu chwaer Annie yn 1875, Griffith ym 1878 ac Owen yn 1879. Roedd William Francis yn rheolwr chwarel Moelfre,

Cwm Pennant. Yn wreiddiol o Ryd-ddu, roedd yn ganwr da ac yn gerddor chwaethus. Bu'n arwain côr yn Nhal-y-sarn ac yn arwain Cymanfaoedd. Mary (Owen) yn enedigol o Dal-y-sarn, y ddau yn aelodau o'r 'Tal-y-sarn Glee Singers', oedd yn enwog yn y cyfnod, ac yn unawdwyr i'r côr hwnnw. Roedd 'Mair Alaw', cans dyna ei henw llwyfan, o deulu dawnus; ei thad yn gerddor da, a'i brawd Edward Owen wedi dilyn cwrs yn Yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, ac wedi ennill y fedal am ganu yn 1886; mae'r fedal honno yn fy meddiant i. Bu ar daith ganu i Dde Affrig gyda chantorion byd-enwog yn cynnwys Dame Nellie Melba. Bu hefyd yn organydd yng nghapel Falmouth Road, Llundain. Roedd brawd arall iddi yn barddoni o dan yr enw 'Ioan Wythwr'. Buaswn yn dra diolchgar am wybodaeth o'i farddoniaeth. Bu Mair Alaw hefyd yn canu llawer yn y Gogledd ac mae hanes amdani yn canu yn y Philharmonic Hall ac yn y Picton Hall Lerpwl. Fe welwch felly fod cerddoriaeth a barddoniaeth yng nghefndir y Brodyr.

Ond er y cychwyn gobeithiol hwn, daeth ffawd â sawl trychineb i'w rhan. Pan oedd fy nhad ond prin dair oed, bu farw ei fam yn 30 oed, hyn yn dilyn effaith damwain. Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach bu farw eu tad, yntau ond yn 33. Cymerwyd y tri phlentyn amddifad i'w magu gan eu taid, Griffith Francis a'i ail wraig Margaret yn Clogwyn Brwnt, Drws y Coed, Dyffryn Nantlle - y ddau ohonynt ar y pryd dros eu chwedegau.

Cyfnod caled iawn oedd hwn, ond un a wnaeth argraff ddefn iawn arnynt. Mae hyn i'w weld yn amlwg iawn wrth ddarllen *Telyn Eryri*, llyfr o farddoniaeth a gyhoeddodd fy ewythr yn 1933.

Yn blentyn bach mewn tymestl flin
O ddyffryn arall curwyd fi.

Buont yn ddisgyblion yn ysgol y Cyngor Rhyd-ddu lle'r oedd tad Syr T. H. Parry-Williams yn brifathro. A dyna'r unig ysgol ffurfiol a gawsant.

Cofio'n hynlwybro yn drindod gytŷn
I'r hen Ysgol gyntaf, anwyllaf o'r un.
Cofio'r mwyn Athro'n ei henfro o hyd,
Fe'i cofir tra rhed dŵr Llŷn Cader
trwy'r Rhyd.

Yn wir, mae'r llyfr yn frith o gymeriadau Rhyd-ddu a Drws y Coed, chwarelwyr, mwynwyr a thyddynwyr, ynghyd â llu o atgofion am chwaraeon plant



Studio Orsaf Gweriniaeth Iwerddon Dulyn, Mawrth 4ydd 1927

Rhes gefn: (o'r chwith i'r dde) Owen Francis, Bob Owen (eu cyfeilydd), Griffith Francis...

Rhes flaen: (ar y chwith) Seamus Clandillon (Prif Gyfarwyddwr yr Orsaf).